

Patrwm cyflwyno: O Fis i Fis

Disgrifiad o'r modiwl

Yn ystod y modiwl hwn byddwch yn archwilio rhai o'r ffactorau seicolegol mwyaf sylweddol sy'n dylanwadu ar ddatblygiad cyfranogwyr mewn chwaraeon. Drwy ddadansoddi ymchwil a theori seicolegol berthnasol yn feirniadol, byddwch yn ystyried dylanwadau datblygiadol ffactorau, er enghraifft teulu, cydberthnasau rhwng hyfforddwyr ac athletwyr, iechyd meddwl a phrofiadau pontio ar lwybr unigolion ym myd chwaraeon. Mae'r modiwl hwn yn addas i bobl sydd â diddordeb mewn seicoleg chwaraeon ac ymarfer corff, neu sy'n gweithio mewn rôl hyfforddi neu rôl berthnasol arall yn y maes hwn. Er bod y modiwl yn canolbwyntio'n bennaf ar berfformiad mewn chwaraeon, mae hefyd yn ystyried rhai agweddau ar gymryd rhan mewn ymarfer corff.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn ar y cyd â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir ym manyleb gyffredinol y person, dylech feddu ar y canlynol:
canlynol:

- gradd neu gymhwyster cyfatebol mewn chwaraeon, ffitrwydd, ymarfer corff neu faes seicoleg cysylltiedig, sydd ag elfen gwyddor chwaraeon ac ymarfer corff sylweddol
- diddordeb brwd yn yr egwyddorion seicolegol sy'n sail i chwaraeon ac ymarfer corff
- profiad o helpu eraill i ddysgu ar lefel gradd, (e.e. drwy addysgu, hyfforddi neu oruchwylio)
- parodrwydd i ddefnyddio technolegau ar-lein

Byddai'n fanteisiol i chi feddu ar y canlynol:

- profiad o seicoleg chwaraeon gymhwysol
- profiad o addysgu ar lefel 5 neu uwch y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol
- profiad o oruchwylio adolygiadau o lenyddiaeth neu draethodau hir myfyrwyr blwyddyn olaf
- gradd ôl-raddedig neu gymhwyster cyfatebol mewn chwaraeon, ffitrwydd, ymarfer corff neu faes seicoleg cysylltiedig, sydd ag elfen gwyddor chwaraeon ac ymarfer corff sylweddol

Gwybodaeth ychwanegol

Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	60
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	1:20
Band cyflog:	7
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	6